Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol O.M. Edwards
# Llanuwchllyn
# Y Bala
# Gwynedd
# LL23 7UB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol O.M. Edwards

Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gynradd O.M. Edwards sy'n gwasanaethu pentref Llanuwchlyn a'r cyffiniau. Mae 109 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r plant yn dechrau yn yr ysgol yn y Medi cyn eu bod yn bedair oed ac yn gorffen pan fyddant yn un ar ddeg oed. Mae pedwar dosbarth, dau ar gyfer plant y cyfnod sylfaen a dau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y cyfnod sylfaen gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol i blant o Flwyddyn 1 ymlaen pan yw'n briodol i'r unigolyn. Addysgir yr holl ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o saith oed ymlaen gyda'r nod o gael y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Daw 90% y disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig.

Mae 7.6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 11% wedi eu dynodi gan yr ysgol yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn un o ysgolion arloesi datblygiad maes llythrennedd a chyfathrebu, sydd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer 2020. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio â'r Llywodraeth o fewn maes datblygiad proffesiynol parhaus ac yn edrych yn fanwl ar y safonau newydd, gan arwain cyfarfodydd hyfforddiant yn y maes hwn. Mae hi hefyd yn ysgol greadigol arweiniol sydd yn cydweithio ag ymarferwyr creadigol ac yn ysgol arloesi yn y maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae pedwar o athrawon amser llawn yn yr ysgol ac mae'r pennaeth presennol wedi arwain yr ysgol ers 2009. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol wedi ei lleoli mewn ardal naturiol Gymreig ac mae holl waith a bywyd yr ysgol yn ymfalchïo ac yn hybu balchder y disgyblion yn eu Cymreictod. Mae parch y disgyblion at ei gilydd yn amlwg ac, o ganlyniad, mae ymddygiad a lles yn elfennau rhagorol. Mae’r ysgol yn cynnig ystod helaeth o brofiadau gwerthfawr sy’n llwyddo i symbylu brwdfrydedd disgyblion at eu gwaith. Maent yn defnyddio’r gymuned leol yn llwyddiannus er mwyn sbarduno balchder a dealltwriaeth o’r ardal leol. Mae’r ysgol yn barod iawn i gymryd risg ac yn awyddus i dreialu dulliau blaengar o gynllunio sy’n canolbwyntio’n gryf ar wrando ar lais y disgybl. Mae brwdfrydedd y staff mewn prosiectau diweddar yn heintus ac mae eu mwynhad wrth ddilyn syniadau’r disgyblion wedi llwyddo i greu darnau o waith TGCh a dylunio a thechnoleg o lefel uchel iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl eu gallu mewn mathemateg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2

A2 Datblygu annibyniaeth disgyblion cyfnod allweddol 2

A3 Defnyddio prosesau asesu yn ffurfiannol er mwyn cwrdd ag anghenion pob disgybl

A4 Datblygu rôl y staff yn y broses hunanarfarnu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â defnyddio'r gymuned yn greadigol i ddarparu profiadau cyfoethog sy'n hybu'r Cwricwlwm Cymreig, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau cyfathrebu uchel iawn; maent o gartefi lle mai'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Mae medrau mathemateg rhan fwyaf y disgyblion wrth iddynt ddechrau'r ysgol hefyd yn uwch na'r disgwyl. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, maent yn gwneud cynnydd da ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau o'u mannau cychwyn.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae bron pob disgybl yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg. Mae medrau llafar bron pob disgybl yn rhagorol, ac mae hyn yn sicrhau mynediad cynhwysfawr i'r cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn defnyddio patrymau brawddeg aeddfed iawn ac yn sgwrsio gyda'u cyfoedion yn hollol naturiol yn y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae'r disgyblion sy'n cyrraedd heb y Gymraeg fel iaith gyntaf yn cael eu trochi'n llwyr yn yr iaith ac yn dysgu i gyfathrebu yn Gymraeg yn fuan iawn. Mae medrau gwrando bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn dda, ac maent yn cyrraedd yr ysgol yn y bore yn barod i ddysgu. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn dangos parch gwirioneddol wrth wrando ar safbwyntiau eraill. Maent yn siarad yn aeddfed yn y Gymraeg ac yn llwyddo i addasu eu hiaith yn briodol at wahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn gallu creu sgript rhagolygon tywydd ar hap, ei chyflwyno mewn amrantiad, gyda'r dealltwriaeth berthnasol o iaith i liwio eu perfformiad wrth gael eu ffilmio o flaen y sgrîn werdd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod i adnabod llythrennau ac adeiladu geiriau yn gynnar ar ôl dechrau yn yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf ddefnyddio eu medrau darllen i ddehongli'r testun yn dda iawn a defnyddio eu medrau ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth ymchwilio am wybodaeth am Oes y Cerrig ar y rhyngrwyd, maent yn dod o hyd i wybodaeth a'i darllen yn wybodus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen nofelau Cymraeg yn rhugl. Gallant drafod cynnwys y nofelau yn dda yngyd â chymharu nofelau a ysgrifenwyd gan awduron Cymraeg fel T Llew Jones gyda nofelau Jaquline Wilson, sydd wedi eu cyfieithu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau trawsieithu o safon uchel wrth ddarllen a thrin gwybodaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu da iawn. Yn y cyfnod sylfaen, mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau ysgrifennu rhagorol ac yn gallu ysgrifennu brawddegau syml gydag elfen dda o gywirdeb. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio atalnodi elfennol a chystyllteiriau yn gywir. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o strategaethau sillafu i adeiladu geiriau mwy cymhleth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda iawn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn rhagorol. Maent yn ysgrifennu'n estynedig at lawer pwrpas gan ddefnyddio geiriau pwerus i greu effaith. Er enghraifft, pan yn ysgrifennu ymson plentyn mewn trychineb Tsunami, soniodd un disgybl fod 'crafangau'r môr yn fy rhwygo', ac un arall yn dweud ei fod yn teimlo, 'fel papur mewn corwynt'. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig yn y Saesneg i lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, er enghraifft

adroddiad am Thomas Telford. Fodd bynnag, nid yw eu medrau wrth gyfathrebu, darllen a siarad wedi datblygu i'r un lefel yn y Saesneg.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen. Mae medrau rhif y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn dda gyda medrau ychydig ohonynt yn rhagorol. Mae'r disgyblion mwy abl eu gallu yn dangos dealltwriaeth gadarn o werth rhif ac yn adio rhifau fesul pedwar, chwech ac wyth yn hyderus hyd at 40. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddo i ddatblygu eu medrau'n briodol. Maent yn caffael dealltwriath gadarn o'r pedair rheol, ffracsiynau, canrannau a gwerth lle. Fodd bynnag, nid yw medrau mathemateg y disgbylion uwch eu gallu wedi eu datblygu i'r eithaf.

Mae safonau TGCh y disgyblion yn uchel iawn ar draws yr ysgol. O gychwyn yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn dangos hyder llwyr wrth ddefnyddio amrywiaeth o offer TGCh i'w cynorthwyo gyda'u gweithgareddau. Mae cynnydd amlwg wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh i ganfod gwybodaeth am eu themâu, ac wrth gyflwyno eu gwaith. Maent yn hyderus ymhob elfen o'r cwricwlwm TGCh. Gallant ddefnyddio HWB i greu rhaglen ddewis sy'n cynnwys cerddoriaeth Gymraeg, creu taenlenni, bas data, a sgwrsio drwy e-byst gyda'u ffrindiau. Maent yn defnyddio rhaglenni priodol i fewngofnodi cyfres o gyfarwyddiadau er mwyn creu rhaglen syml. Mae'r defnydd a wneir o offer TGCh, ynghyd â dealltwriaeth y disgyblion wrth eu defnyddio, yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth arloesol a gynigir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn golygu bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau, gan gynnwys eu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'u medrau mentergarwch yn llwyddiannus i gynhyrchu cylchgrawn 'POP', gan ysgrifennu erthyglau diddorol am gymeriadau eu cymdeithas, rysait gwneud bwyd i'r adar, creu cystadlaethau a jôcs digri. Maent yn defnyddio'r elw i brynu ieir er mwyn helpu trigolion yn dilyn trychineb yng ngwlad Nepal. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau datrys problemau, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn dda iawn drwy weithio ar brosiectau sy'n ymwneud â phrofiadau bob dydd. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith a wnaed yn ddiweddar gan ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ynglŷn â'u thema 'Pontydd'.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Nodwedd eithriadol o dda yn yr ysgol yw'r parch a'r cwrteisi sydd gan bron pob un disgybl tuag at ei gilydd, at oedolion, ac at ymwelwyr. Mae eu medrau cyfathrebu a'u medrau cymdeithasol yn ardderchog ac yn gryfder arwyddocaol ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd amlwg tuag at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at oedolion ac yn oddefgar o anghenion eraill. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw gamdriniaeth gorfforol a geiriol, ac maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder tuag at yr ysgol ac yn cymryd cyfrifoldeb i hybu a chefnogi lles eu cyfoedion. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllun 'Ffrindiau Ffeind', lle mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cael eu partneru gyda disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn hybu'r ymdeimlad o berthyn i un teulu mawr.

Mae ymddygiad bron pob disgybl o safon uchel iawn. Maent yn ymddwyn yn ardderchog mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae eu parodrwydd i weithio yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn dda iawn. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac mae eu cyfraniad mewn trafodaethau dosbarth yn cael ei werthfawrogi. O ganlyniad i weithredu strategaethau meddylfryd twf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd dyfalbarhau a datrys problemau ar y cyd gyda chyfoedion fel arfau i gwblhau tasgau. Drwy gynllunio themâu yn ymarferol ac yn drawsgwricwlaidd, mae bron pob disgybl wedi eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'r tasgau; ac yn dangos diddordeb tuag at holl waith y dosbarth. Mae brwdfryddedd byrlymus y disgyblion tuag at brosiect diweddar ar bontydd yn heintus.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau iachus wrth ddewis byrbryd a chynnwys pecynnau cinio. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini ac yn deall sut mae ymarfer y corff yn chwarae rhan allweddol o gadw'n iach, ynghyd â deiet cytbwys. Mae mynychu'r ganolfan hamdden i nofio ynghyd â gwersi rygbi gydag aelod o staff o'r ysgol uwchradd, yn uchafbwynt wythnosol i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Mae llais y disgybl yn cael dylanwad arwyddocaol ar y profiadau sy'n cael eu darparu. Mae cynrychiolwyr y cyngor ysgol yn cymryd eu rolau o ddifrif ac yn gwbl hyderus ac annibynnol yn hysbysebu a threfnu digwyddiadau codi arian, er enghraifft mewn bore coffi ar gyfer elusennau, cefnogi plant mewn ysgol yn Nepal a phrynu offer amser chwarae. Maent yn trafod blaenoriaethau'r cyngor yn hyderus ac yn mynd ati yn hollol annibynnol i'w gweithredu. Mae angerdd aelodau'r cyngor Siarter Iaith tuag at y Gymraeg, eu hardal a'u hetifeddiaeth yn gryfder allweddol yn yr ysgol. O dan arweiniad y cyngor eco, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o gynaliadwyedd yn dda iawn a chaiff hyn ei ledaenu ymysg y gymuned drwy ymgyrchoedd codi sbwriel lleol.

Mae canran presenoldeb yr ysgol yn gyson uwch na thargedau cenedlaethol ac wedi bod yn y 25% uchaf dros gyfnod o bedair blynedd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda gydag elfennau o ragoriaeth. Pan fo'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn llwyddo i sbarduno chwilfrydedd bron pob un disgybl trwy ddefnyddio dull arloesol a chreadigol o gynllunio. Maent yn cydweithio â'r disgyblion i gynllunio prosiectau sy'n seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn. Mae'r dull hwn o gynllunio yn tanio brwdfrydedd heintus ymhlith disgyblion a staff yr ysgol at eu gwaith. Mae'r gweithgareddau arloesol yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn hynod lwyddiannus yn drawsgwricwlaidd, er enghraifft drwy weithio gyda chynllun ar gyfer hybu meysydd gwyddoniaeth, technoleg, electroneg a mathemateg (adnabyddir fel STEM) i gynllunio gweithgareddau diddorol er mwyn darganfod effaith tywydd eithafol ar draws y byd. Arweinia'r gwaith hwn at y disgyblion yn ysgrifennu ymson pwerus iawn am blentyn ar goll mewn tsunami.

Nodwedd dda iawn o'r addysgu yw'r berthynas waith hyfryd sy'n bodoli rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae hyn yn adlewyrchu'r parch a'r ymroddiad i gydweithio er lles y disgyblion.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn digwydd yn naturiol, gyda'r disgyblion, staff, rhieni a'r gymdeithas yn ymfalchïo yng nghadernid yr iaith a'r diwylliant. Mae'r ysgol yn manteisio ar hyn ac yn defnyddio'r gymuned leol yn ddyfeisgar i ddatblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau'r disgyblion. Er enghraifft, gwahoddir aelodau hŷn y gymdeithas i drafod hanes a chwedlau lleol fel sail i waith thema'r tymor.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r athrawon yn cynllunio'n gelfydd er mwyn datblygu medrau creadigol disgyblion. Maent yn paratoi ystod eang o brofiadau sy'n seiliedig ar bedwar diben Cwricwlwm i Gymru sy'n annog disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus a chwilfrydig. Ceir cydbwysedd da rhwng tasgau sydd wedi eu harwain gan oedolyn a thasgau sydd wedi eu hysgogi gan ddisgybl.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn gwrando ar lais y disgybl ac yn cynllunio profiadau arloesol sy'n sbarduno chwilfrydedd ac yn symbylu lefel uchel o ddyfalbarhad. Er enghraifft, trwy gwblhau prosiect ynglŷn â 'phontydd', datblygwyd dealltwriaeth gadarn o rinweddau deunydd ar gyfer adeiladu pont a manteisiwyd ar y cyfle i ymweld â phont Menai er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o beirianneg strwythurol. Yn sgil y gwaith hwn, anogwyd y disgyblion i edrych ar rôl menywod ym maes adeiladu a datblygwyd eu dealltwriaeth o gyfartaledd ym myd gwaith.

Mae athrawon yn rhoi pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth disgyblion o oed cynnar trwy eu hannog i archwilio, arbrofi a gwneud penderfyniadau annibynnol am yr hyn y maent am ei ddysgu. Mae darpariaeth y cyfnod sylfaen yn galluogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau allweddol o fewn gweithgareddau'r ardaloedd parhaus ac estynedig, yn nodwedd arbennig. Fodd bynnag, cyfleoedd cyfyng iawn sydd i ddisgyblion ddatbygu ymhellach ar eu gallu i weithio'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o effeithiol o ystod eang o raglenni digidol amrywiol sy'n sbarduno bron pob disgybl i ddysgu mewn ffordd gyfoes. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol daearyddol i arsylwi ar dywydd ar draws Cymru, Prydain, Ewrop a'r byd. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i blethu ystod o fedrau cyfathrebu, rhifedd a thechnolegol i'w gwaith yn gwbl naturiol.

Mae athrawon yn defnyddio adborth llafar amserol sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn modelu iaith lafar gyfoethog, ac mae hyn yn cael ei hadlewyrchu'n glir yng ngwaith ysgrifenedig y disgyblion. Mae'r disgyblion yn ymateb i feini prawf llwyddiant sydd wedi eu gosod gan yr athro ac yn defnyddio'r rhain wrth gynnig sylwadau i'w cyfoedion ar ffyrdd i wella eu gwaith. Mae sylwadau ysgrifenedig cryno a phwrpasol yr athrawon yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Pan fo disgyblion yn cael cyfle i ymateb i sylwadau'r athrawon, maent yn llwyddo i wella rhannau allweddol o'u gwaith a chyflawni darnau ysgrifennedig o lefel dda iawn. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn asesu'n rheolaidd, gan ddadansoddi deilliannau yn effeithiol er mwyn llywio'u cynlluniau wythnosol, sy'n hylaw a chynaliadwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn datblygu dulliau asesu sy'n plethu i'w gwaith fel ysgol arloesol. Fodd bynnag, nid oes gan yr athrawon gofnod clir o gyrhaeddiad pob disgybl ac nid ydynt yn cynllunio'n fwriadus i fodloni anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ethos ac amgylchedd yr ysgol yn dathlu diwylliant yr ardal leol yn llwyddiannus. Mae'r arddangosfeydd yn ysgogi'r ymdeimlad o berthyn i gymuned ehangach o Gymreictod. Mae balchder y disgyblion yn hanes yr ysgol a'i tharddiad yn dda iawn. Mae enwogrwydd O.M Edwards yn goroesi trwy'r cymeriad 'Archarwr Owen' sydd yn hybu meddylfryd twf y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae chwedlau megis 'chwedl Gwion Bach' yn fyw yn ngweithgareddau disgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt greu afon iddo gyrraedd y llyn.

Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau sy'n defnyddio'r ardal leol fel sbardun, er enghraifft wrth adeiladu pont i gyrraedd Gwersyll Glanllyn, gweld archelolegwyr yn cloddio ar ben Carn Dochan, cydweithio â thrên bach Llanuwchlyn a thrafod y prosiect newydd o gael y trên bach i fynd i fewn i ganol tref y Bala. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o'u diwylliant a'u cymuned leol.

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos iawn gydag ysgol yn Nepal. Mae'r disgyblion yn dysgu am grefydd a diwylliant y wlad ac yn cysylltu trwy lythyru a gyrru e-byst. Cafodd y trychineb diweddar yn Nepal effaith ddofn ar y disgyblion a sbardunodd godi arian er mwyn prynu ieir fel rhodd i drigolion y wlad.

Mae'r gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion mewn modd arbennig iawn. Maent yn cystadlu'n llwyddiannus yn yr Urdd, yn cael cyfleoedd da i berfformio'n gyhoeddus yn lleol ac yn genedlaethol ac yn datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus. Mae hyn yn ategu gweledigaeth yr ysgol yn dda. Caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fynychu Gwersyll Glanllyn, ac mae hyn yn datblygu balchder at eu hardal leol.

Mae staff yr ysgol yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. O ganlyniad, mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartef sy'n ategu gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn ehangu'r gofal a'r gefnogaeth i ddisgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnu effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau drwy waith y cyngor ysgol, y cyngor eco, arweinwyr digidol a'r siarter iaith. Mae cyfle cyfartal i ddisgyblion fod yn rhan o holl weithgareddau'r ysgol.

Mae cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Daw arlunydd i'r ysgol yn wythnosol i weithio gyda disgyblion y cyfnod sylfaen. Fel rhan o waith 'cynllun ysgolion creadigol', daw cyfansoddwr a dramodydd i gynnal gweithgareddau i ddatblygu hyder disgyblion Blwyddyn 1 a 2.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu addas ar gyfer tracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn asesu'n dymhorol ac yn dadansoddi'r data i adnabod, yn gyffredinol, yr ardaloedd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, mae ganddynt drosolwg cadarn o'r meysydd cwricwlaidd sydd wedi cael eu cyflwyno a'r meysydd sydd angen eu cyflwyno. Fodd bynnag, anghyson yw'r defnydd o ganfyddiadau asesu er mwyn cynllunio ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Prin yw'r dystiolaeth bod arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion unigol.

Mae athrawon yn cydweithio ag ysgolion y clwstwr i gymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau ansawdd eu barnau am gyrhaeddiad a

chyflawniad.  Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol er mwyn cynllunio gweithgareddau dosbarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Trwy weithio mewn partneriaeth â'r swyddog heddlu lleol, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau effeithiol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am sut i gadw eu hunain yn ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r wê yn ardderchog.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.  Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn ymyrryd lle bo angen.  Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr.  Maent yn cynnwys targedau cyraeddadwy sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, ar y cyd â'r disgyblion a'r rhieni.  Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth adolygu cynnydd y dysgwyr hyn.  O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r pennaeth yn gosod gweledigaeth glir a phwrpasol sy'n seiliedig ar sicrhau bod yr ysgol yn gyfoes ac yn defnyddio dulliau addysgu blaengar.  Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan y dirprwy.  Mae cyfrifoldebau'r staff wedi eu rhannu'n briodol ac maent yn cydweithio'n dda er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau ardderchog sy'n eu hysbrydoli i feithrin brwdfrydedd at eu haddysg.

Mae'r ysgol yn barod iawn i gymryd risg ac mae'r athrawon yn awyddus i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach wrth ymgymryd â'u rôl fel ysgol arloesol a hefyd fel ysgol greadigol.  Yn sgîl y prosiectau hyn, daw elfennau o'r gymdeithas ynghyd.  Er enghraifft, mewn partneriaeth â'r gymuned leol, maent yn gweithredu prosiectau trawsgwricwlaidd ac yn defnyddio busnesau lleol, cerddorion ac artistiaid fel symbyliad i sbarduno medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol iawn i'r ysgol.  Mae aelodau'r corff yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn ymgymryd â theithiau dysgu tymhorol, siarad â disgyblion a chraffu ar lyfrau.  O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn llwyddiannus i gefnogi a herio'r ysgol yn bwrpasol, er enghraifft wrth adnabod yr angen i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn absenoldeb cyson y staff wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith fel ysgol arloesol.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant ac ethos sydd yn cefnogi dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus.  Mae'n sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu hymarferion drwy rannu arfer dda o fewn yr ysgol a chydag ysgolion lleol.  Er enghraifft, mae athrawon yn cydweithio ag ysgolion lleol i ddatblygu strategaethau i hybu medrau dysgu'r disgyblion.  O ganlyniad, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn ymgymryd â thasgau yn annibynnol iawn tu fewn ac yn yr ardal allanol.  Mae bod yn rhan o'r rhwydwaith o ysgolion arloesi'r cwricwlwm hefyd yn cynnig cyfleoedd llwyddiannus i athrawon ymestyn eu datblygiad profesiynol wrth gydweithio ag ysgolion ar draws Cymru i gynllunio ac arbrofi wrth greu profiadau dysgu dychmygus ac ysgogol.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu, sy’n defnyddio ystod o dystiolaeth addas, gan gynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith ac arsylwi ar wersi. Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i athrawon ymgymryd â rôl yn y broses hunanarfarnu ac anghyson yw’r defnydd o farn disgyblion a rhieni.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu, a baratowyd cyn yr arolygiad, yn cynnig barn amlwg am safonau, lles ac agweddau at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw’n adnabod yn ddigon clir rai agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a’r safonau. Er enghraifft, nid oes cyfeiriad at wella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl mewn mathemateg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu â’r cynllun gwella ysgol. Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n briodol ar wella’r ddarpariaeth, codi safonau ac ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae gwariant wedi ei gysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro’n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio’n effeithlon. Mae buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh newydd yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ardderchog i gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i godi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn. O ganlyniad, mae pob un ohonynt yn cyrraedd y deilliant neu’r lefel ddisgwyliedig.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2018